ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #193
24 Awst 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

Dyma rifyn arbennig sy'n rhoi'r holl sylw ar **ganlyniadau Safon Uwch** y colegau addysg bellach ac yn llongyfarch y cystadleuwyr o Gymru yng nghystadleuaeth sgiliau fwya'r byd - **WorldSkills**.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

This is a special edition of enews that showcases the successes of Wales' further education colleges in this year's **A level exams** and in congratulating Wales' competitors in the largest skills competition on Earth - **WorldSkills**.

Canlyniadau Safon Uwch

Canlyniadau Trawiadol Colegau Cymru yn Arholiadau Safon Uwch

Mae cyfradd lwyddo Safon Uwch ystod eang o golegau addysg bellach Cymru yn uwch na chyfartaledd y DU. Mae'r gyfradd lwyddo ar y graddau uchaf hefyd wedi gweld cynnydd nodedig mewn nifer o golegau. Mae llawer o fyfyrwyr coleg nawr ar fin cychwyn eu ffordd i brifysgolion mawreddog megis y Grŵp Russell a Rhydgrawnt.

Yn dangos cyfradd lwyddo uwch na chyfartaledd y DU (98.1%) mae Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Gŵyr Abertawe, Grŵp NPTC, y Coleg Merthyr Tudful, Porth Ddysgu Blaenau Gwent Coleg Gwent, Coleg Sir Gâr a Choleg Sir Benfro. Yn ogystal, mae colegau eraill wedi cwrdd â chyfradd lwyddo Cymru (97%).

Mae colegau yn darparu rhan sylweddol o'r addysg academaidd yng Nghymru. Er enghraifft, safodd 1,000 o fyfyrwyr Coleg Gwent arholiadau Safon Uwch eleni, a 650 yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cynnig tua 50 o opsiynau Safon Uwch, gyda 86 o fyfyrwyr yn cyflawni graddau A*-A eleni.

Bu canlyniadau trawiadol hefyd o newydd-ddyfodiaid i'r Safon Uwch - Y Coleg Merthyr Tudful a Parth Ddysgu Blaenau Gwent.

Y tu hwnt i'r ystadegau, mae hanesion o lwyddiant unigol anhygoel, gan gynnwys hanes myfyriwr o Goleg y Cymoedd, Jacob Lewis, sydd bellach ar ei ffordd i Gaergrawnt gyda 4 A* er gwaethaf sefyllfa bersonol anodd iawn -

bu'n ddi-gartref eleni.
| Mwy ar ganlyniadau Colegau Cymru

Canlyniadau fesul coleg

Am fwy o wybodaeth am ganlyniadau pob un o'r colegau yng Nghymru, cliciwch ar y dolenni isod.
(Rhestrir y colegau yn nhrefn yr wyddor.)
Chweched y Rhyl (Grŵp Llandrillo Menai)
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Catholig Dewi Sant
Coleg Ceredigion
Coleg Gwent
Coleg Gŵyr Abertawe
Coleg Sir Gâr
Coleg y Cymoedd
Coleg Sir Benfro
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp NPTC
Y Coleg Merthyr Tydfil

Sylw yn y papurau lleol

Bu i'r gweisg lleol ym mhedwar ban roi sylw i ganlyniadau'r colegau. Dyma flas ohonynt.
Grŵp NPTC yn y SW Evening Post
Coleg Gŵyr Abertawe yn y SW Evening Post
Coleg Sir Gâr yn y Carmarthen Journal
Proffil myfyrwyr Grwp Llandrillo Menai a Choleg Cambria yn y Daily Post
Grwp Llandrillo Menai (Gwynedd)yn y Daily Post
Grŵp Llandrillo Menai (Sir Ddinbych) yn y Daily Post
Coleg Cambria (Wrecsam) yn y Daily Post

WorldSkills

Bu i WorldSkills - cystadleuaeth sgiliau fwya'r byd - gymryd lle yn Sao Paulo, Brasil rhwng 12-16 Awst.

Roedd y 41 o gystadleuwyr a oedd yn rhan Dîm y DU ymhlith y cyfanswm o 1,200 o gystadleuwyr o bob rhan o'r byd.

Cyflawnodd **Cymru** a'r DU eu canlyniadau gorau hyd yma.

Enillodd tîm y DU tair medal aur, pedair medal arian a dwy fedal efydd, yn ogystal â 24 Medaliwn Rhagoriaeth (a ddyfernir i gystadlewyr sy'n cyrraedd 500+ o bwyntiau cystadlu - sef meincnod "safon gorau yn y byd").
Roedd pedwar o gystadleuwyr o Gymru yn Nhîm y DU (dau yn cael eu cefnogi gan golegau - Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Sir Gâr), gyda thri ohonynt yn ennill Medaliwn Rhagoriaeth (ar gyfer Gwaith Coed, Technoleg Ceir a Thrin

Gwallt).

Yn ogystal, roedd pedwar o Reolwyr Hyfforddiant Tîm y DU yn dod o golegau Cymru (Dylunio Gwe, Melino CNC, Gwaith Coed, Her Cynhyrchu mewn Tîm).

Caiff hanes Cymru yn y WorldSkills ei gynnwys yn y storify yma gan GolegauCymru
Ceir trosolwg gwych o daith Tîm y DU yn WorldSkills Sao Paulo o'r dechrau i'r diwedd yn e-lyfr FE Week

Canlyniadau Tîm y DU: | FE News | Find a Future | TES
Fideos o Dîm WorldSkills UK ym Mrasil
Ffrwd Flickr WorldSkills UK
Dyfynnir Eleni, cystadleuydd o Gymru (dan gefnogaeth Coleg Sir Gar) wrth i Dîm y DU ymweld ag ysgol yn Sao Paulo ar gychwyn WorldSkills
Proffil o Owain Jones (Coleg Meirion Dwyfor) ar wefan y CITB cyn mynd ac hefyd yn y Daily Post 19 Awst

WorldSkills yn y cyfryngau prif ffrwd

'Dylai WorldSkills gael llawn cymaint o sylw â'r Gemau Olympaidd' medd y papur newydd y Times Educational Supplement. Mae'n dadlau y gallai llwyddiant y DU yn y gystadleuaeth WorldSkills ym Mrasil ddod â manteision i'r system sgiliau gyfan.

Er nad yw cyfryngau prif ffrwd y DU yn barod (eto?) i roi cymaint o amser ar yr awyr i WorldSkills, aeth Steph McGovern (BBC Breakfast) i WorldSkills Sao Paulo 2015 ag o ganlyniad i'w brwdfrydedd amlwg iawn, cafodd gwylwyr y BBC eu blas cyntaf o'r gystadleuaeth enfawr hon. Am y tro cyntaf, cafwyd cyfres o ddarnau ar WorldSkills ar **BBC Breakfast, BBC 5 Live, Radio 4, a BBC Ar-lein (tudalennau Busnes).**

O ddiddordeb gwleidyddol allweddol i Steph McGovern oedd pam nad yw'r DU yn rhoi proffil uwch WorldSkills a sgiliau technegol.

Er i bob cystadleuydd yn Nhîm y DU dderbyn llythyr gan David Cameron ac i Ddirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru arwain derbyniad i ffarwelio â'r pedwar o Gymru cyn iddynt ddechrau ar eu taith i Frasil, mae gwledydd eraill yn rhoi proffil uwch a gwobrau mawr i'w cystadleuwyr.

Wrth fynychu WorldSkills am y nawfed tro, dywedodd Is-Lywydd Gweithredol Samsung wrth y BBC bod ei wlad enedigol, Korea, yn trin ei chystadleuwyr fel sêr, gyda'r enillwyr yn derbyn rhoddion gan gynnwys arian parod a thai.
"Mae hwn yn faes bwysicach na chwaraeon", meddai. "Mae'n gysylltiedig â chynhyrchiant a lles pobl".
Ym Mrasil, telir ffioedd prifysgol y buddugwyr cynhenid.
Yn yr Iseldiroedd, mae cynlluniau ar y gweill i roi wynebau eu cystadleuwyr ar bosteri mewn arosfannau bysiau ar hyd a lled y wlad.

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB